COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl254

Amseru:

Teitl: Arian tuag ag at gais achos busnes y Timoedd Troseddau Ieuenctid

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Mae'r CHTh wedi bod yn trafod gyda'r Timoedd Troseddau Ieuenctid, sydd wedi cyflwyno cais busnes yn gofyn am arian i ddatblygu swyddogaeth a rôl Cyfiawnder Adferol benodol o fewn eu timoedd. Byddai'r **Prosiect Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol Cyfiawnder Ieuenctid** yn anelu i roi cymorth i ddioddefwyr a chaniatáu i'w lleisiau gael eu clywed yn ystod pob cam o'r System Cyfiawnder Ieuenctid a chefnogi cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Cydnabu y gall plant yn y system cyfiawnder troseddol fod yn droseddwyr ac yn ddioddefwyr, ac mae Timoedd Troseddau Ieuenctid mewn sefyllfa unigryw i weithio gyda phlant i fynd i'r afael â'r ddeuoliaeth hon a gweithio tuag at leihau niwed. Byddai'r prosiect yn sicrhau bod ymagweddau adferol yn cael eu defnyddio mewn ffordd a fyddai o fudd i'r plentyn (a gyflawnodd y drosedd, drwy ei helpu i adnabod effaith ei ymddygiad, ac ar yr un pryd, mynd i'r afael ag unrhyw deimladau o gywilydd ac euogrwydd), y dioddefydd a'r gymuned ehangach. Lle mae hynny'n briodol a diogel, byddai Cynadleddau Adferol yn cael eu hwyluso, gyda mathau eraill o atgyweiriad uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cael eu defnyddio lle nad yw hyn yn bosibl.

Argymhelliad:
Mae'r CHTh yn cytuno i gyfrannu £25,000 er mwyn cefnogi datblygu'r prosiect Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol Cyfiawnder Ieuenctid, gyda chyfraniad o gyllideb Cronfa Wrth Gefn y Comisiynydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:

Dyddiad: 2/2/2022